

|                     |                                                                                           |
|---------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|
| Canol Tref Llanelli | Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau |
|---------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|

**Crynodeb o'r dystiolaeth: ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau**

Mae'r crynodeb un dudalen hwn yn nodi'r brif dystiolaeth sy'n cefnogi ymgynghoriad ar adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau yng Nghanol Tref Llanelli.

|                                                                                                    |                                               |                                          |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------|
| 428                                                                                                | Ebrill 2024 i Fawrth 2026                     | 130                                      |
| troseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau a gofnodwyd o fewn ardal y GDMC | cyfnod tystiolaeth o ddwy flynedd a adolygwyd | atafaeliadau alcohol o fewn ardal y GDMC |

Nododd yr adolygiad 257 o ddigwyddiadau a throseddau cysylltiedig ag alcohol a 171 o ddigwyddiadau a throseddau cysylltiedig â chyffuriau mewn mannau cyhoeddus a gwmpesir gan y GDMC presennol, sy'n cyfateb i gyfartaledd o bron i 18 digwyddiad y mis.

**Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos**

Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys yn nodi patrwm parhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau a phryderon lles sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau yng Nghanol Tref Llanelli. Mae gweithgarwch wedi'i gofnodi ledled ardal bresennol y GDMC ac mae'n dangos problemau parhaus sy'n effeithio ar fannau cyhoeddus a ddefnyddir gan drigolion, ymwelwyr a busnesau.

- Cofnodwyd cyfanswm o 428 o droseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau o fewn ffin bresennol y GDMC yn ystod y cyfnod adolygu, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, digwyddiadau diogelwch y cyhoedd, troseddau, gorddosau ac arestiadau am fod yn feddw ac afreolus.
- Mae data'r heddlu yn dangos adroddiadau mynych o feddwdod mewn mannau cyhoeddus, yfed ar y stryd, anhrefn, ymddygiad ymosodol, unigolion yn achosi rhwystrau, troethi mewn mannau cyhoeddus, defnyddio cyffuriau a phryderon am unigolion bregus mewn mannau cyhoeddus.
- Mae gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'i grynhoi'n arbennig mewn ychydig o leoliadau yng nghanol y dref, gan gynnwys Stryd Murray, Heol yr Orsaf a Stryd Stepney, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r digwyddiadau a gofnodwyd. Mae gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau hefyd wedi'i grynhoi o amgylch Stryd Murray, Heol yr Orsaf, Stryd Stepney, Stryd yr Eglwys a Granby Close.
- Mae pryderon diogelwch y cyhoedd a lles yn ffurfio rhan sylweddol o'r galw, gan gynnwys adroddiadau am unigolion yn anymwybodol, yn analluog, yn feddw ar y ffyrdd, ac aelodau o'r cyhoedd yn dod o hyd i offer cyffuriau wedi'u taflu.
- Cofnododd swyddogion yr heddlu 130 o atafaeliadau alcohol o fewn ardal y GDMC yn ystod y cyfnod adolygu, sef cyfartaledd o fwy na phum atafaeliad bob mis. Digwyddodd mwy na hanner yr holl atafaeliadau yn ardal y Gerddi Suddedig.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r digwyddiadau a gofnodwyd danddatgan gwir lefel yr anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, gan nad yw pob digwyddiad yn cael ei adrodd i'r heddlu, ac ni ellir cysylltu pob trosedd yn uniongyrchol ag alcohol neu gyffuriau.

**Pam mae GDMC yn cael ei ystyried**

Byddai'r adnewyddiad arfaethedig o'r GDMC yn parhau i ddarparu pwerau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, cefnogi ymyriadau lle mae yfed mewn mannau cyhoeddus ac anhrefn cysylltiedig yn achosi problemau, a helpu i ddiogelu defnydd diogel a phleserus Canol Tref Llanelli i drigolion, ymwelwyr a busnesau.